Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 24.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi safbwynt teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011.

Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
1 Mawrth 2011

1. Disgrifiad

Mae'r gorchymyn hwn yn cywiro ffurf Gymraeg y cadarnhad teyrngarwch y caiff aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei roi.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Bernir nad oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Adran 23(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod yn rhaid i aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd llw teyrngarwch, neu roi cadarnhad teyrngarwch, cyn gynted ag y bo'n hynny rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei ethol yn aelod Cynulliad.

Mae Adran 23(1) hefyd yn cael yr effaith mai ffurf Saesneg y llw teyrngarwch yw'r ffurf a nodir yn adran 2 o Ddeddf Llwon Addewidiol 1868, ac mai ffurf Saesneg y cadarnhad teyrngarwch yw geiriau'r llw teyrngarwch a addaswyd yn unol ag adran 6(1) o Ddeddf Llwon 1978.

Mae Adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu, pan fo un o Ddeddfau Senedd y DU yn pennu ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio at ddibenion swyddogol, y caiff un o Weinidogion y Goron wneud gorchymyn sy'n rhagnodi ffurf ar eiriau yn Gymraeg sydd i'w defnyddio.

Rhoddodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1, bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1993 wneud gorchmynion o dan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mewn perthynas â Chymru. Trosglwyddwyd y pŵer wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwnaeth Gweinidogion Cymru Orchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007(O.S. 2007/2044, Cy.169) ("gorchymyn 2007") o dan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd y Gorchymyn yn rhagnodi ffurfiau Cymraeg y llwon a'r cadarnhadau teyrngarwch ar gyfer aelodau'r Cynulliad, yn ogystal â ffurfiau Cymraeg llwon a chadarnhadau swyddogol ar gyfer aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mater i bob aelod Cynulliad unigol yw penderfynu a yw am gymryd y llw neu roi'r cadarnhad, ac a yw am ddefnyddio'r ffurf Gymraeg neu'r ffurf Saesneg.

Mae adran 27(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn darparu bod yn rhaid i orchmynion sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion y Goron o dan adran 26(2) o'r Ddeddf honno gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar ôl iddynt gael eu gwneud. Ni all Senedd y DU eu dirymu.

Effaith paragraff 33(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw bod yn rhaid i orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(2) o

Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 gael eu gosod gerbron y Cynulliad ar ôl iddynt gael eu gwneud ond na all y Cynulliad eu dirymu.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y gorchymyn hwn yw cywiro camgymeriad yn ffurf Gymraeg y cadarnhad teyrngarwch. Yr effaith y mae'n ei chael yw sicrhau bod y ffurf Gymraeg yn adlewyrchu'n gywir y ffurf Saesneg a ragnodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn cysylltiad â'r gorchymyn hwn am ei fod yn gwneud cywiriad technegol i ffurf Gymraeg y cadarnhad teyrngarwch y caiff aelodau'r Cynulliad ei ddefnyddio.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r gorchymyn hwn am ei fod yn gwneud cywiriad technegol i ffurf Gymraeg y cadarnhad teyrngarwch y caiff aelodau'r Cynulliad ei ddefnyddio.